



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cylch Gorchwyl (gan ymgorffori'r rheolau gweithdrefnol a wnaed o dan Ran 7 o Atodlen 1 i Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013

Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1543A2019-20

Mabwysiadwyd gan y Bwrdd ar 24 Gorffennaf 2019



Cynnwys

CYLCH GORCHWYL

Statws	3
Swyddogaethau a chyfrifoldebau	3
Cyfansoddiad	3
- Aelodaeth	3
- Penodiadau	4
- Yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol	5
- Penodiadau eraill	5
Cymorth ysgrifenyddol	6
Cyfarfodydd y Bwrdd	6
- Y rhaglen waith	6
- Amllder	6
- Presenoldeb	7
- Papurau	7
- Cworwm	7
- Datgan buddiant	7
- Penderfyniadau a phleidleisio	8
- Ymddygiad	8
- Cofnodion	8
Dirprwyo swyddogaethau	8
Pwyllgorau'r Bwrdd	9
Camau gweithredu'r Cadeirydd	9
Gwerthuso perfformiad	9
Dilysrwydd y trafodion	10
Sêl Swyddfa Archwilio Cymru	10
Adolygu'r cylch gorchwyl	10
Atodiadau	11
Atodiad 1 – rheolau o ran ethol aelod-gyflogeion i'r Bwrdd	11

Statws

- 1 Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi'i sefydlu yn gorff corfforaethol o dan adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ("y Ddeddf"). Mae'r cylch gorchwyl hwn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer cynnal busnes a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r canlynol:
 - cynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru;
 - y Cod Ymarfer sy'n nodi'r hyn y dylai'r berthynas fod rhwng yr Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru;
 - Cod Ymddygiad y Bwrdd.
- 2 Mae'r cylch gorchwyl yn cynnwys y rheolau gweithdrefnol sy'n ofynnol o dan Atodlen 1, rhan 7, paragraff 27 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Swyddogaethau a chyfrifoldebau

- 3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru:
 - (a) yn monitro sut y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol;
 - (b) yn rhoi cyngor o ran cyflawni'r swyddogaethau hynny;
 - (c) yn sicrhau y darperir yr adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny ac y diogelir annibyniaeth weithredol swydd yr Archwilydd Cyffredinol yn unol ag adran 8 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013;
 - (ch) yn gyfrifol am gynnal safonau llywodraethu corfforaethol ac am gyflawni swyddogaethau penodol o dan Ddeddf 2013.
- 4 Disgrifir cyfrifoldebau penodol ac ar y cyd yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru a'i haelodau yn y Cod Ymarfer sy'n nodi'r hyn y dylai'r berthynas fod rhwng Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfansoddiad

Aelodaeth

- 5 Mae gan y Bwrdd naw aelod sy'n cynnwys:
 - (a) pum aelod anweithredol, ac un ohonynt yw'r Cadeirydd;
 - (b) yr Archwilydd Cyffredinol sydd hefyd yn Brif Weithredwr ac yn Swyddog Cyfrifyddu Swyddfa Archwilio Cymru;
 - (c) tri aelod-gyflogai, un wedi'i enwebu gan yr Archwilydd Cyffredinol a dau wedi'u hethol drwy bleidlais gan y cyflogeion.

Penodiadau

Yr aelodau anweithredol

- 6 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penodi pum aelod anweithredol ac yn pennu eu telerau penodi gan gynnwys eu cyfrifoldebau, eu tâl, yr amgylchiadau pan ellir terfynu eu penodiad a'r trefniadau os byddant yn dymuno ymddiswyddo. Mae penodiadau am hyd at bedair blynedd a gellir eu hadnewyddu unwaith, yn amodol ar broses asesu.

Y Cadeirydd

- 7 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn penodi Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o blith yr aelodau anweithredol (ar ôl ymgynghori â Phrif Weinidog Cymru). Mae penodiadau am hyd at bedair blynedd a gellir eu hadnewyddu unwaith, yn amodol ar broses asesu.
- 8 Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n pennu telerau penodi'r Cadeirydd, gan gynnwys ei gyfrifoldebau, y tâl, yr amgylchiadau pan ellir terfynu ei benodiad a'r trefniadau os bydd yn dymuno ymddiswyddo (gan ymddiswyddo o fod yn aelod anweithredol hefyd neu beidio).

Yr Archwilydd Cyffredinol

- 9 Caiff yr Archwilydd Cyffredinol ei benodi gan y Goron yn dilyn enwebiadau gan y Cynulliad Cenedlaethol. Gall Archwilydd Cyffredinol fod yn ei swydd am hyd at wyth mlynedd ac ni cheir ei ailbenodi wedi hynny. Nodir yr amgylchiadau o ran ymddiswyddiad neu ddiswyddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn adran 3 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.
- 10 O dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn aelod o Swyddfa Archwilio Cymru ac yn Brif Weithredwr arni.

Yr aelod penodedig

- 11 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymhell cyflogai i'r aelodau anweithredol ei benodi i Swyddfa Archwilio Cymru ("yr aelod penodedig"). Caiff yr aelodau anweithredol benodi'r sawl y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ei enwebu neu ofyn am argymhelliad arall (bydd y broses hon yn parhau hyd nes y deuir i gytundeb). Bydd yr aelodau anweithredol yn glir ynghylch eu rhesymau dros beidio â derbyn enwebiad. Caiff yr aelodau anweithredol benderfynu ar hyd y penodiad, ac nid oes terfyn ar sawl gwaith y gellir adnewyddu penodiad o'r fath.
- 12 Caiff yr aelod penodedig ymddiswyddo o'r Bwrdd drwy hysbysu'r aelodau anweithredol yn ysgrifenedig.
- 13 Caiff penodiad yr aelod penodedig ei derfynu os yw'r aelod hwnnw'n peidio â bod yn gyflogedig gan Swyddfa Archwilio Cymru. Caiff yr aelodau anweithredol derfynu'r penodiad drwy hysbysiad ysgrifenedig os:
 - (a) y bu'r aelod yn absennol o gyfarfodydd y Bwrdd heb ganiatâd y Bwrdd am gyfnod neu gyfnodau sy'n dod i gyfanswm o dri mis neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis; neu
 - (b) yw'r aelod wedi methdalau neu wedi gwneud trefniant gyda chredydwy'r; neu
 - (c) yr atafaelwyd ystâd yr aelod yn yr Alban neu, o dan gyfraith yr Alban, ei fod wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwy'r, neu wedi rhoi gweithred ymddiriedaeth iddynt; neu
 - (ch) nad yw'n addas i'r aelod barhau â'r penodiad oherwydd camymddygiad; neu
 - (d) yw'r aelod wedi methu â chydymffurfio â thelerau'r penodiad; neu

- (e) nad yw'r aelod fel arall yn gallu, nad yw'n addas iddo, neu ei fod yn anfodlon cyflawni ei swyddogaethau fel aelod.

Yr aelodau etholedig

- 14 Mae'r aelodau anweithredol yn penodi dau aelod-gyflogai ar ôl i'r staff fwrw pleidlais ("yr aelodau etholedig"). Nodir y rheolau ar gyfer cynnal pleidlais o'r fath yn Atodiad 1.
- 15 Mae'r aelodau anweithredol yn pennu telerau penodi'r aelodau etholedig, gan gynnwys eu cyfrifoldebau, lwfansau, yr amgylchiadau pan ellir terfynu eu penodiad a'r trefniadau os byddant yn dymuno ymddiswyddo. Nid oes terfyn ar sawl gwaith y gallant ymgeisio mewn pleidleisiau dilynol.
- 16 Caiff penodiad aelod-gyflogai ei derfynu os yw'r aelod hwnnw'n peidio â bod yn gyflogedig gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

- 17 Mae'r Cadeirydd yn enwebu aelod anweithredol i'r Bwrdd ei gymeradwyo i fod yn Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol. Yn ogystal â dirprwyo ar ran y Cadeirydd pan na all yntau weithredu, mae cyfrifoldebau'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cynnwys:
- (a) arfarnu perfformiad y Cadeirydd;
 - (b) derbyn adroddiadau os bydd rhywun yn datgelu camarfer y tu allan i'r gadwyn rheoli llinell arferol yn unol â pholisi mewnol Swyddfa Archwilio Cymru ar ddatgelu camarfer; a
 - (c) goruchwyllo'r gwaith o ethol i'r Bwrdd aelod-gyflogaion

Penodiadau eraill

- 18 Gall y Bwrdd benodi aelodau i swyddogaethau eraill i gefnogi neu hyrwyddo agweddau penodol ar brosiectau busnes neu orchwyl a gorffen Swyddfa Archwilio Cymru. Mae swyddogaethau o'r fath wedi'u cynllunio i feithrin ymrwymiad y Bwrdd ond hefyd yn rhoi cyfle i aelodau feithrin dealltwriaeth a gwybodaeth am y busnes, gan eu helpu nhw a'r Bwrdd i gyflawni eu swyddogaethau'n fwy effeithiol.
- 19 Wrth gyflawni'r swyddogaethau hyn, ni fydd Aelodau yn mynd y tu hwnt i'w cyfrifoldebau drwy ymgymryd ag agweddau a gweithgareddau sy'n briodol i'r weithrediaeth, sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud argymhellion i'r Bwrdd ac sy'n atebol am eu gweithredu.
- 20 Gall y Bwrdd benderfynu bod angen disgrifiadau swyddogaeth manwl ar gyfer penodiadau penodol. Fodd bynnag, mae'r canlynol yn gyffredinol wir am aelodau'r Bwrdd a benodir i'r swyddogaethau hyn:
- (a) dylent fod yn meddu ar rywfaint o wybodaeth am y maes hwnnw, neu â diddordeb ynddo, neu fod yn barod i ddysgu am agwedd arbennig os nad oes ganddynt wybodaeth neu arbenigedd eisoes;
 - (b) bydd yn cysylltu'n bennaf â'r Cyfarwyddwr Arweiniol sy'n gyfrifol am y maes pwnc;
 - (c) bydd yn eiriol dros y mater hwnnw yn ystod trafodaethau'r Bwrdd gan gadw mewn cof bob amser sut y mae'r drafodaeth dan sylw yn debygol o effeithio arno;
 - (ch) bydd yn sicrhau, wrth ddatblygu strategaethau a pholisïau, eu bod yn seiliedig ar safbwynt y Bwrdd, gan graffu ar gynigion cyn i'r Bwrdd eu hystyried;
 - (d) bydd yn ofalus nad yw eu cyfraniad yn tanseilio penderfyniadau'r Bwrdd.

Cymorth ysgrifenyddol

- 21 Bydd y Bwrdd yn penodi Ysgrifennydd i wneud y canlynol:
- a) sicrhau bod y Bwrdd wedi'i gyfansoddi a'i gynghori'n gywir;
 - b) sicrhau bod agendâu'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn cyd-fynd â'i gilydd ac y rhoddir sylw i faterion priodol drwy eu cynnwys ar agendâu y Bwrdd;
 - c) trafod y rhaglen waith gyda'r Cadeirydd;
 - (ch) sicrhau bod y Bwrdd yn derbyn gwybodaeth a phapurau mewn da bryd er mwyn gallu ystyried materion yn llawn ac yn briodol;
 - d) trefnu cyfarfodydd y Bwrdd a chadw cofnodion priodol o'i drafodaethau;
 - (dd) ymgymryd â'r dyletswyddau gweinyddol ar gyfer ethol aelod-gyflogeion i'r Bwrdd, a nodir yn y rheolau etholiadol (Atodiad 1); a
 - e) darparu unrhyw gymorth ymarferol arall sydd ei angen.
- 22 Mae'r Cadeirydd yn cyfrannu at werthuso perfformiad blynyddol yr Ysgrifennydd yn rhan o'r trefniadau arferol.

Cyfarfodydd y Bwrdd

Y rhaglen waith

- 23 Mae Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw cynllun o'r materion sy'n debygol o gael eu cyflwyno i'w hystyried gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn. Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn addasu'r cynllun yn ôl yr angen ym mhob cyfarfod.

Amllder

- 24 Mae'r Bwrdd fel arfer yn cyfarfod o leiaf chwe gwaith y flwyddyn, yn unol â gofynion ei raglen waith.
- 25 Mae'n bosibl y bydd sesiynau briffio cyn y cyfarfodydd er mwyn:
- codi ymwybyddiaeth y Bwrdd o agweddau penodol ar waith Swyddfa Archwilio Cymru neu'r amgylchiadau y mae hi'n gweithredu ynddynt;
 - cyfarwyddo neu ystyried yn fanylach y rhesymeg neu'r dulliau gweithredu sy'n sail i'r strategaethau, y cynlluniau a'r materion eraill a gyflwynir yn ffurfiol yng nghyfarfodydd y Bwrdd.
- 26 Nid yw'r Bwrdd yn gwneud unrhyw benderfyniadau yn ystod y sesiynau briffio hyn ac nid yw'r Ysgrifennydd yn eu cofnodi'n ffurfiol.
- 27 Caiff cyfarfodydd Bwrdd eu galw gan yr Ysgrifennydd ar gais y Cadeirydd. Mae'n bosibl i'r Cadeirydd alw cyfarfod arbennig o'r Bwrdd ar unrhyw adeg, neu i unrhyw dri aelod wneud hynny drwy wneud cais ysgrifenedig. Gellir galw cyfarfod arbennig drwy roi rhybudd o lai na phum diwrnod gwaith os yw'r Cadeirydd yn cyfarwyddo hynny ac os oes materion y mae angen eu hystyried ar fyrder.

Presenoldeb

- 28 Gall Aelodau na allant fod yn bresennol sôn wrth y Cadeirydd am unrhyw faterion cyn y cyfarfod y maent yn berthnasol iddo.
- 29 Os na all y Cadeirydd na'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol fod yn bresennol yn y cyfarfod cyfan neu ran ohono, rhaid i'r aelodau anweithredol eraill benodi rhywun o blith eu hunain i gadeirio'r cyfarfod hwnnw neu ran o'r cyfarfod. Bydd y trefniadau cworwm a ddisgrifir ym mharagraffau 31 i 34 yn berthnasol.
- 30 Mae'r Cyfarwyddwr Cyllid bob amser yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd. Gall y Bwrdd wahodd neu ofyn i staff eraill ddod i gyfarfodydd cyfain neu ran o gyfarfodydd fel y bo'n briodol. Y Cadeirydd sy'n penderfynu a ellir cymryd rhan dros y ffôn neu ar ffurf cynhadledd fideo. Gall y Cadeirydd ofyn i unrhyw un sy'n bresennol adael y cyfarfod ar unrhyw adeg.

Papurau

- 31 Oni chytunir fel arall, bydd yr Ysgrifennydd yn anfon hysbysiad o leiaf pum diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod o bob cyfarfod at yr aelodau ac unrhyw un y mae'n ofynnol iddo fod yn bresennol, yn cadarnhau'r lleoliad, y dyddiad a'r amser ynghyd ag agenda o eitemau i'w trafod. Caiff papurau ategol eu hanfon ar yr un pryd. Mae papurau hwyr yn eithriad a dim ond gyda chydysyniad y Cadeirydd ymlaen llaw y gellir eu derbyn.

Cworwm

- 32 Y cworwm sy'n angenrheidiol ar gyfer trafod materion yw pum aelod, ar yr amod na ellir cael cworwm o dan unrhyw amgylchiadau oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn aelodau anweithredol.
- 33 Mewn cyfarfod Bwrdd sydd wedi ei alw yn briodol a lle mae cworwm, mae modd i'r Bwrdd arfer pob un o'r awdurdodau, y pwerau a'r doethineb a ymddiriedir iddo, neu y gall weithredu yn unol â nhw.
- 34 Os nad oes cworwm mewn cyfarfod, ni cheir cynnal unrhyw drafodaethau ffurfiol ac mae'n rhaid parhau i fod â chworwm mewn cyfarfod er mwyn gwneud penderfyniadau. Os na fydd cworwm mewn cyfarfod, bydd unrhyw drafodaethau yn anffurfiol yn unig.
- 35 Os nad oes cworwm, gall y Cadeirydd:
 - (a) benderfynu galw cyfarfod arbennig i ymdrin â'r holl faterion neu'r materion sy'n weddill; neu
 - (b) caiff ohirio penderfyniadau i'r cyfarfod nesaf pan fo'n ymarferol gwneud hynny o fewn cyfyngiadau terfynau amser statudol a therfynau ymarferol eraill; neu
 - (c) ei gwneud hi'n ofynnol i un neu ragor o aelod-gyflogeion adael y cyfarfod fel bod cworwm.

Datgan buddiannau

- 36 Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd yn disgrifio'r amgylchiadau pan fo'n rhaid cadw cofrestr o fuddiannau a'r broses o wneud hynny. Mae'r Cod hefyd yn disgrifio sut y mae datgan buddiannau yng nghyfarfodydd y Bwrdd.
- 37 Rhaid i'r Ysgrifennydd gynghori'r Cadeirydd a dwyn y mater i sylw'r Aelod os yw'n ymddangos, ar sail datganiad yn y gofrestr o fuddiannau'r Aelodau, bod gwrthdaro neu wrthdaro posibl rhwng buddiannau mewn cysylltiad ag eitem ar yr agenda.

- 38 Gall y Cadeirydd benderfynu y dylid ystyried rhai eitemau yn absenoldeb un neu fwy o Aelodau os na ellir fel arall reoli neu liniaru gwrthdaro buddiannau. Pan fo'n ymarferol gwneud hynny, bydd y Cadeirydd yn sylwi ar eitemau o'r fath cyn y cyfarfod a chânt eu nodi ar wahân ar yr agenda fel sesiwn breifat.
- 39 Yn achos materion a godwyd ar y diwrnod, bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Bwrdd ar ddechrau'r cyfarfod pa eitemau (os o gwbl) sydd i'w trafod mewn sesiwn breifat.
- 40 O bryd i'w gilydd, rhaid i'r Bwrdd adolygu'r defnydd o sesiynau preifat er mwyn sicrhau y cynhaliwyd sesiynau o'r fath yn briodol a dim ond pan roedd angen.

Penderfyniadau a phleidleisio

- 41 Pan fo'n bosibl, daw'r Bwrdd i benderfyniadau drwy gonsensws o'r aelodau sy'n bresennol. Os na all y Cadeirydd sicrhau consensws, penderfynir ar y mater dan sylw gan fwyafrif pleidleisiau'r aelodau sy'n bresennol.
- 42 Ni chaniateir pleidleisio drwy ddirprwy neu drwy'r post ar ran aelodau absennol.
- 43 Caiff yr aelodau bleidleisio drwy bleidlais gudd os yw mwyafrif yr aelodau'n cytuno â hynny.
- 44 Mae hawl gan aelodau sy'n anghytuno i nodi eu hanfodlonrwydd yn y cofnodion ynghyd â'r rheswm/rhesymau pam eu bod yn anfodlon.
- 45 Ar ôl penderfynu ar fater, bydd pob aelod yn rhwym wrth benderfyniad y Bwrdd.
- 46 Gellir diddymu neu newid penderfyniadau'r Bwrdd dim ond trwy benderfyniad dilynol. Ni chaniateir diddymu neu newid penderfyniad oni chaiff ei ailystyried fel eitem sylweddol ar agenda cyfarfod dilynol.

Ymddygiad

- 47 Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Bwrdd yn disgrifio'r safonau ymddygiad a ddisgwylir yn ystod cyfarfodydd ac yn fwy cyffredinol. Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am gadw trefn yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd a gall gymryd unrhyw gamau rhesymol sy'n angenrheidiol i sicrhau trafodaethau trefnus.

Cofnodion

- 48 Rhaid i'r Ysgrifennydd sicrhau bod y Bwrdd yn cadw cofnodion priodol o'i drafodion a'i benderfyniadau.
- 49 Bydd yr Ysgrifennydd yn ceisio anfon y cofnodion drafft at y Cadeirydd o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod Bwrdd y maent yn berthnasol iddo a bydd y Cadeirydd yn eu cymeradwyo i'w dosbarthu i'r aelodau.
- 50 Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo'r cofnodion yn ei gyfarfod nesaf. Rhaid i'r Ysgrifennydd drefnu i gyhoeddi cofnodion cyfarfodydd drwy eu gosod mewn man hawdd ei gyrraedd ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Dirprwyo swyddogaethau

- 51 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithredu yn unol â'i chynllun dirprwyo ond nid yw dirprwyo swyddogaeth yn atal y Bwrdd rhag arfer y swyddogaeth ei hun.

Pwyllgorau'r Bwrdd

- 52 Caiff y Bwrdd sefydlu a dirprwyo swyddogaethau i bwyllgorau (ac eithrio lle na chaniateir dirprwyo o'r fath fel y nodir yn y cynllun dirprwyo). Bydd y Bwrdd yn cymeradwyo cylch gorchwyl ei bwyllgorau, a chaiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn.
- 53 Fel arfer, bydd aelodau'r pwyllgorau yn cynnwys aelodau anweithredol a aelod-gyflogeion etholedig. Fodd bynnag, gall rhywun nad yw'n aelod nac yn gyflogedig gan Swyddfa Archwilio Cymru fod yn aelod o bwyllgor ar yr amod nad yw'r Bwrdd yn dirprwyo unrhyw swyddogaethau i'r Pwyllgor neu'r is-bwyllgor.
- 54 Caiff cyflogai i Swyddfa Archwilio Cymru nad yw'n aelod-gyflogai fod yn aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor.

Camau gweithredu'r Cadeirydd

- 55 Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r Cadeirydd i weithredu ar ei ran wrth ymdrin â chamau gweithredu arferol na fyddent fel arfer yn haeddu eitem ar yr agenda mewn cyfarfod o'r Bwrdd, er enghraifft llofnodi dogfennau rheolaidd ar ran y Bwrdd.
- 56 O bryd i'w gilydd, bydd angen i'r Cadeirydd weithredu ar ran y Bwrdd rhwng cyfarfodydd ar faterion mwy sylweddol. Pan fo modd, dylai'r Bwrdd awdurdodi camau o'r fath mewn cyfarfod Bwrdd blaenorol a dylai'r Ysgrifennydd wneud cofnod priodol ohonynt.
- 57 O dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i'r Cadeirydd weithredu ar fater brys, pan fyddai oedi yn arwain at niwed difrifol i Swyddfa Archwilio Cymru. O dan amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd sicrhau y caiff y camau y mae'r Cadeirydd yn eu cymryd eu hadrodd i gyfarfod nesaf y Bwrdd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod hwnnw fel modd o'u cadarnhau. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Bwrdd yn derbyn cyfrifoldeb corfforaethol am unrhyw weithredoedd.
- 58 O ran eitemau busnes annisgwyl a brys, gall y Cadeirydd benderfynu peidio â chymryd camau gweithredu Cadeirydd a chynnwys yn hytrach yr holl Aelodau er mwyn dod i benderfyniad ar y cyd. Gall y Bwrdd ystyried busnes o'r fath drwy e-bost o dan amgylchiadau eithriadol. Bydd y trefniadau ar gyfer sicrhau cworwm (paragraffau 31 i 34) ac ar gyfer cofnodi penderfyniadau (paragraff 47) yn berthnasol.

Gwerthuso perfformiad

- 59 Bydd y Bwrdd yn gwerthuso ei berfformiad ei hun (gan gynnwys perfformiad ei bwyllgorau) yn flynyddol. Bob tair i bum mlynedd, mae'n rhaid i ymgynghorydd allanol annibynnol gynnal y gwerthusiad hwn.
- 60 Bydd y Cadeirydd yn adolygu perfformiad aelodau yn unol â'r fframwaith rheoli perfformiad a sefydlwyd at y diben hwnnw. Caiff perfformiad y Cadeirydd ei adolygu gan yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol.
- 61 Mae gan y Bwrdd gynllun dysgu a datblygu, a adolygir yn flynyddol, sy'n ymdrin â'r trefniadau ar gyfer sefydlu aelodau newydd ac ar gyfer darparu hyfforddiant parhaus perthnasol i'r aelodau presennol.

Dilysrwydd y trafodion

62 Nid yw unrhyw swydd wag neu unrhyw benodiad diffygiol gan unrhyw un o aelodau'r Bwrdd yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion y Bwrdd neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor.

Sêl Swyddfa Archwilio Cymru

63 Mae'n rhaid i ddefnydd y sêl gael ei ddilysu gan:

- lofnod aelod o'r Bwrdd; neu
- unrhyw un sydd â'r awdurdod i wneud hynny drwy benderfyniad gan y Bwrdd; neu
- gan gynllun dirprwyo Swyddfa Archwilio Cymru.

Adolygu'r cylch gorchwyl

64 Mae'r Bwrdd yn adolygu'r cylch gorchwyl hwn yn flynyddol.

Atodiad 1 – Rheolau ar gyfer ethol i'r Bwrdd aelod-gyflogeion

Cyfrifoldeb dros drefniadau etholiadol

- 1 Bydd yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel 'Swyddog Etholiadau' ac yn gyfrifol am oruchwylio'r trefniadau o ran cynnal y bleidlais ac am ardystio'r canlyniad.
- 2 Ysgrifennydd y Bwrdd ('yr Ysgrifennydd') sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Swyddog Etholiadau drwy wneud y trefniadau gweinyddol ar gyfer y bleidlais i'r graddau y mae'r rhain yn angenrheidiol i ategu unrhyw drefniadau a wneir gan sefydliad allanol sydd ag enw da (gweler paragraff 21 isod).
- 3 Os yw'r Ysgrifennydd yn bwriadu sefyll yn y bleidlais, rhaid i'r swyddog etholiadau benodi Ysgrifennydd dros dro i gyflawni swyddogaeth yr Ysgrifennydd wrth weinyddu'r bleidlais. Os etholir yr Ysgrifennydd, daw swydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn wag, a rhaid i'r Bwrdd ddechrau proses recriwtio i benodi Ysgrifennydd newydd.¹

Hysbysiad ac amseriad y bleidlais

- 4 Y Bwrdd fydd yn penderfynu ar y dyddiadau cau ar gyfer derbyn enwebiadau a phleidleisio. Fodd bynnag:
 - (a) Dylai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn enwebiadau fod o leiaf 8 diwrnod gwaith yn dilyn yr hysbysiad o bleidlais ac o leiaf 20 diwrnod gwaith cyn diwedd y bleidlais.
 - (b) Ni ddylai'r dyddiad ar gyfer cau'r bleidlais fod yn fwy na 45 diwrnod gwaith yn dilyn unrhyw swydd wag ond gellir ei ymestyn 10 diwrnod gwaith ychwanegol er mwyn sicrhau na fydd cyfnod yr etholiad, gan gynnwys y cyfnod ar gyfer enwebiadau, ar adeg pan fo llawer iawn o staff yn absennol neu'n brysur iawn yn cwblhau archwiliadau.
- 5 Bydd y bleidlais ar agor am gyfnod o 10 diwrnod gwaith o leiaf.
- 6 Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi hysbysiad o bleidlais ar fewnwyd Swyddfa Archwilio Cymru (gan anfon dolen drwy e-bost at bob aelod o staff) dim mwy na 5 diwrnod gwaith ar ôl i sedd ddod yn wag (sedd wag am resymau heblaw am ddiwedd tymor yr aelod), neu, yn achos seddi gwag ar ddiwedd cyfnod, dim llai na

¹ Bydd rhywun sy'n peidio â bod yn Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhinwedd cael ei ethol yn aelod-gyflogai yn cael ei benodi i waith arall o fewn y sefydliad, ar yr amod bod gwaith addas ar gael, ac eithrio wrth gwrs mewn perthynas â'i waith yn aelod-gyflogai.

15 diwrnod cyn diwedd tymor arferol aelod-gyflogai. Gellir enwebu o'r adeg y cyhoeddir yr hysbysiad o bleidlais.

- 7 Rhaid i'r hysbysiad o bleidlais nodi'r dyddiad cau (dyddiad ac amser) ar gyfer derbyn enwebiadau gan yr Ysgrifennydd, y dyddiad a'r amser ar gyfer cwblhau'r pleidleisio, a chynnwys dolen i'r rheolau etholiad hyn.

Enwebiadau

- 8 Mae holl gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru ni waeth beth fo ffurf neu hyd eu cytundeb, hyd eu gwasanaeth neu oriau gwaith yn gymwys i gael eu henwebu i sefyll mewn etholiad.
- 9 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, trwy drafod â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell fel y bo'n briodol, yn gwneud trefniadau i sicrhau bod staff nad ydynt yn bresennol yn y swyddfa, er enghraifft ar secondiad, absenoldeb oherwydd salwch neu absenoldeb mamolaeth yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses os ydynt yn dewis gwneud hynny.
- 10 Rhaid i enwebiadau fod ar ffurf a gymeradwyir gan y swyddog etholiadau, fod wedi eu llofnodi gan yr ymgeisydd a phum noddwr sy'n gyflogedig gan Swyddfa Archwilio Cymru (neu wedi'u cefnogi gan negeseuon e-bost dilys o gyfeiriadau e-bost Swyddfa Archwilio Cymru yr unigolyn perthnasol) ac fod wedi dod o law yr Ysgrifennydd cyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Dim ond un ymgeisydd y gall noddwr ei noddi ar gyfer pob sedd wag. Ni dderbynnir enwebiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau y caiff y ffurflen enwebu ei llenwi'n gywir a'i chyflwyno i'r Ysgrifennydd cyn y dyddiad cau.
- 11 Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi rhestr o enwebiadau dilys a dderbyniwyd ar fewnwyd Swyddfa Archwilio Cymru cyn gynted ag y bo modd ar ôl y dyddiad cau. Bydd yr Ysgrifennydd yn sicrhau bod ffurflenni enwebu wedi'u llenwi ar gael i'w harchwilio.
- 12 Os yw nifer yr enwebiadau dilys yn cyfateb i nifer y lleoedd sydd ar gael, nid oes angen pleidleisio a bernir bod y rhai a enwebwyd wedi'u hethol.
- 13 Os yw nifer yr enwebiadau dilys yn llai na nifer y lleoedd sydd ar gael, ni fydd pleidlais. Os oes un ymgeisydd cymwys, caiff ei ethol yn ddiwrthwynebiad. Bydd sedd wag achlysurol ar gael mewn cysylltiad â'r lle gwag nas llenwyd ac mae'n rhaid ailadrodd y broses etholiadol nes bod nifer y ymgeiswyr o leiaf yn cyfateb i nifer y seddi gwag.

Ymgyrchu

- 14 Caniateir i ymgeiswyr a enwebwyd ymgyrchu drwy unrhyw un neu'r holl ddulliau canlynol:
 - cyhoeddi datganiad ysgrifenedig heb fod yn fwy na 500 o eiriau ar y fewnwyd (yr Hyb);

- cyhoeddi taflenni a'u dosbarthu'n bersonol yn swyddfeydd Swyddfa Archwilio Cymru (ond ni chânt ddefnyddio adnoddau Swyddfa Archwilio Cymru i gynhyrchu na dosbarthu'r taflenni);
 - anfon un e-bost heb fod yn fwy na 500 gair at yr holl staff;
 - ateb cwestiynau achlysurol a ofynnir yn anffurfiol ar lafar, drwy e-bost neu drwy'r nodwedd sylwadau ar yr Hyb.
- 15 Ni chaniateir unrhyw ffurfiau eraill o ymgyrchu gan yr ymgeisydd na'i gefnogwyr, yn enwedig y defnydd o gyfryngau cymdeithasol (ac eithrio drwy nodwedd sylwadau'r Hyb sy'n rhan o Yammer).
- 16 Daw'r cyfnod ymgyrchu i ben pan fydd y bleidlais yn agor; ni chaniateir i ymgeiswyr ymgyrchu ar ôl y dyddiad hwn.
- 17 Ni chaniateir i ymgeiswyr ganfasio, a ddiffinnir fel ceisio cyswllt uniongyrchol ag unigolion mewn modd systematig i ofyn am bleidleisiau.
- 18 Dylai ymgeiswyr sicrhau eu bod yn ymgyrchu yn y modd a ganiateir ac yn unol â Chod Ymddygiad Swyddfa Archwilio Cymru. Yn benodol, ni ddylent nodi unrhyw gysylltiadau gwleidyddol, a rhaid iddynt beidio ag ymgyrchu gan ddyfynnu cefnogaeth unrhyw sefydliad allanol. Fodd bynnag, gallant ddangos cefnogaeth gan gangen leol o undebau llafur (Swyddfa Archwilio Cymru).

Pleidleisio

- 19 Mae gan holl gyflogeion Swyddfa Archwilio Cymru, ni waeth beth fo ffurf neu hyd eu cytundeb, hyd eu gwasanaeth neu oriau gwaith, yr hawl i bleidleisio.
- 20 Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd, trwy drafod â'r Pennaeth Adnoddau Dynol a rheolwyr llinell fel y bo'n briodol, yn gwneud trefniadau i sicrhau bod staff nad ydynt yn bresennol yn y swyddfa, er enghraifft ar secondiad, absenoldeb salwch neu absenoldeb mamolaeth yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses os ydynt yn dewis gwneud hynny.
- 21 Bydd y Bwrdd yn contractio'r gwaith o weinyddu'r bleidlais i sefydliad allanol sydd ag enw da. Rhaid i'r swyddog etholiadau sicrhau bod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau:
- a. Mai dim ond unwaith y caiff cyflogeion bleidleisio; ac
 - b. Y caiff y canlyniad ei ddilysu'n annibynnol fel na all staff eraill nac aelodau'r Bwrdd weld y pleidleisiau a fwriwyd gan staff unigol.
- 22 Gwahoddir staff i roi "1" wrth enw eu dewis ymgeisydd a "2" wrth enw eu hail ddewis ac yn y blaen. Etholir unrhyw ymgeisydd sy'n cael mwy o bleidleisiau dewis cyntaf na throthwy a bennwyd ymlaen llaw yn unol â fformiwla. Pennir y trothwy gan y fformiwla ganlyinol:

$$\left(\frac{\text{nifer y pleidleisiau dilys a fwriwyd}}{\text{nifer y lleoedd sydd ar gael} + 1} \right) + 1$$

- 23 Yna, caiff pleidleisiau dros ben yr ymgeisydd etholedig sy'n fwy na'r trothwy hwn eu trosglwyddo i'r ymgeiswyr eraill yn gymesur â phleidleisiau ail ddewis y rhai a bleidleisiodd dros yr ymgeisydd etholedig. Os oes gan unrhyw ymgeisydd fwy o bleidleisiau na'r trothwy ar ôl yr aiddosbarthu hwn, caiff ei ethol. Os, ar unrhyw adeg yn y broses hon, na fydd gan unrhyw ymgeiswyr heb eu hethol nifer o bleidleisiau sy'n fwy na'r trothwy, caiff yr ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau dewis cyntaf ei fwrw o'r ornest a throsglwyddir ei bleidleisiau i'r ymgeiswyr sy'n weddill yn unol â'r pleidleisiau ail ddewis. Mae'r broses hon yn parhau nes bod y nifer gofynnol o ymgeiswyr yn sicrhau digon o bleidleisiau i gyrraedd y trothwy.
- 24 Os mai dim ond un lle sydd ar gael mewn unrhyw etholiad penodol, y trothwy fydd hanner cyfanswm y pleidleisiau. Os nad yw'r un ymgeisydd yn ennill mwy na hanner y bleidlais, caiff yr ymgeisydd sydd â'r nifer lleiaf o bleidleisiau dewis cyntaf ei fwrw o'r ornest a throsglwyddir ei bleidleisiau i'r ymgeiswyr sy'n weddill yn gymesur â'u pleidleisiau ail ddewis, ac yn y blaen, nes bod un ymgeisydd yn sicrhau mwy na hanner y bleidlais.
- 25 Rhaid i'r Ysgrifennydd anfon e-bost at yr holl staff sy'n esbonio sut y caiff pleidleisiau eu bwrw o leiaf 5 diwrnod gwaith cyn agor y bleidlais.
- 26 Ar ôl y dyddiad pleidleisio, bydd y contractwr a gynhaliodd y bleidlais yn dilysu'r pleidleisiau yn annibynnol, a bydd y swyddog etholiadau yn ardystio'r canlyniadau. Rhaid i'r Ysgrifennydd gyhoeddi trosolwg o'r canlyniadau ar fewnwyd Swyddfa Archwilio Cymru a sicrhau bod canlyniadau llawn ar gael ar gais. Bydd y trosolwg o'r canlyniadau yn cynnwys enwau pob ymgeisydd a etholir, y rownd y cawsant eu hethol ynddi, a'r bleidlais a gawsant yn eu rownd derfynol, yn ogystal ag enwau pob ymgeisydd nas etholwyd ynghyd â'r rownd y cawsant eu bwrw o'r ornest a'r bleidlais a gawsant yn eu rownd derfynol.
- 27 Bydd aelodau anweithredol y Bwrdd yn penodi'r ymgeiswyr llwyddiannus i'r Bwrdd.

Anghydfodau a honiadau o dorri'r Rheolau

- 28 Rhaid i unrhyw ymgeisydd, aelod o staff neu aelod o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru sy'n honni bod y rheolau hyn wedi'u torri hysbysu'r Swyddog Etholiadau o'r ffeithiau sy'n wybyddus iddo cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael gwybod am hynny ac mae'n rhaid iddo roi i'r swyddog etholiadau unrhyw dystiolaeth yn ei feddiant neu ei reolaeth.
- 29 Bydd y Swyddog Etholiadau yn dyfarnu ar unrhyw achos honedig o dorri'r rheolau neu unrhyw anghydfodau eraill ynghylch y broses ethol neu'r canlyniad. Rhaid cyflwyno'r rhesymau dros anghydfod yn ysgrifenedig o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i achos yr anghydfod ddod i'r amlwg. Bydd y Swyddog Etholiadau yn ceisio barn yn ymgeiswyr eraill ac unrhyw bartion perthnasol eraill a gall gynnal ymholiadau ychwanegol. Bydd y Swyddog Etholiadau yn cyflwyno'i benderfyniadau yn ysgrifenedig (a all fod ar ffurf e-bost).

- 30 Yn rhan o'i benderfyniad ar unrhyw anghydfod, mae gan y Swyddog Etholiadau yr hawl i wahardd ymgeisydd. Mae hawl gan y Swyddog Etholiadau hefyd i ymestyn y broses bleidleisio neu ei therfynu a galw pleidlais newydd yn unol â'r Rheolau hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Swyddog Etholiadau sicrhau bod ei benderfyniad yn rhesymol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.
- 31 Gellir apelio yn erbyn penderfyniadau'r Swyddog Etholiadau drwy gyflwyno apêl ysgrifenedig yn nodi ar ba sail y cyflwynir yr apêl i Gadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Rhaid apelio o fewn 5 diwrnod gwaith i'r Swyddog Etholiadau gyhoeddi ei benderfyniad ysgrifenedig. Rhaid i'r Cadeirydd benderfynu ar yr apêl yn brydlon a chyflwyno'i benderfyniad yn ysgrifenedig (a all fod ar ffurf e-bost). Mae penderfyniad y Cadeirydd yn derfynol. Mae hawl gan y Cadeirydd i wrthdroi gwaharddiad ond ni all wahardd rhywun. Mae hawl gan y Cadeirydd hefyd i ymestyn y broses bleidleisio neu ei therfynu a galw pleidlais newydd yn unol â'r rheolau hyn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cadeirydd sicrhau bod ei benderfyniad yn rhesymol ac yn gymesur â'r amgylchiadau.
- 32 Os caiff rhywun ei wahardd ar ôl cael ei ethol, mae ei benodiad fel aelod-gyflogai o'r Bwrdd yn dod i ben yn dilyn penderfyniad ar unrhyw apêl neu, os nad oes apêl, pan ddaw'r terfyn amser ar gyfer apelio i ben, ac wedyn daw'r sedd yn wag.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn gwmni testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru